**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys**
**Stadiwm Swalec, Caerdydd, 11 Gorffennaf 2019**

**Crynodeb o'r cyfarfod**

## 1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 2. Trosolwg o'r Bil a diweddariad yn ei gylch

Rhoddodd Llywodraeth Cymru drosolwg o hynt y Bil.

## 3. Cefndir datrysiadau y tu allan i'r llys

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gefndir a chyd-destun y berthynas rhwng datrysiadau y tu allan i'r llys a'r Bil.

## 4. Cytuno ar gylch gwaith drafft ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a Chynllun Dargyfeirio

Gofynnwyd i aelodau'r grŵp ystyried y cylch gwaith drafft ar gyfer y grŵp a chytuno arno. Awgrymodd y grŵp nifer o newidiadau, a chawsant eu nodi. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r cylch gwaith ar ôl cael adborth gan y grŵp ac y byddai'n ailddosbarthu'r cylch gwaith er mwyn cael sylwadau arno. At hynny cytunodd aelodau'r grŵp y byddent, cyn y cyfarfod nesaf, yn ystyried a fyddent yn hoffi ymgymryd â rôl y cyd-gadeirydd.

## 5. Trafodaeth Allweddol: Sesiwn 1 – Deall dulliau ymarfer presennol a'r modd y caiff datrysiadau y tu allan i'r llys a chynlluniau dargyfeirio eu defnyddio'n weithredol

Amlinellodd pob un o'r heddluoedd y cynlluniau dargyfeirio sydd ar waith ar hyn o bryd yn eu hardal:

| | |
|---|---|
| **Heddlu De Cymru**<br>• Cynllun Braenaru i Fenywod<br>    ○ Ar y cyd â Heddlu Gwent<br>• Cynllun Dargyfeirio - 18-25 | **Heddlu Dyfed-Powys**<br>• Cynllun Braenaru Dargyfeiriol (i Ddynion a Menywod)<br>• Cynllun Dargyfeirio - Alcohol |
| **Heddlu Gwent**<br>• Cynllun Braenaru i Fenywod<br>    ○ Ar y cyd â Heddlu De Cymru<br>• Cynllun Dargyfeirio - 18-25<br>    ○ Ar y cyd â Heddlu De Cymru<br>• Cynllun Dargyfeirio - Alcohol | **Heddlu Gogledd Cymru**<br>• Checkpoint<br>• Cynllun Braenaru i Fenywod |

## 6. Trafodaeth Allweddol: Sesiwn 2

Bu'r grŵp yn ystyried rhai o'r prif egwyddorion ar gyfer unrhyw gynllun dargyfeirio, a oedd yn cynnwys asesiadau o anghenion, gwaith adsefydlu, arferion magu plant, a chymorth.

Nododd y grŵp sawl opsiwn cyffredinol ar gyfer cynllun dargyfeirio, a oedd yn cynnwys:

- Darparwr cenedlaethol
- Cynllun dargyfeirio wedi'i deilwra
- Cyfeirio pobl at gynlluniau sy'n bodoli eisoes
- Cyfeirio pobl at gymorth sy'n bodoli eisoes ar gyfer y sawl sy'n magu plant.

Trafodaeth ynghylch map prosesau Heddlu Gogledd Cymru

Bu'r grŵp yn ystyried y broses ddargyfeirio yn y gogledd dan y cynllun dargyfeirio a elwir yn Checkpoint. Cytunodd Heddlu Gogledd Cymru i rannu map prosesau ei gynllun dargyfeirio ynghyd ag enghraifft o ddogfen asesiad o anghenion. Cytunodd ardaloedd heddluoedd eraill i ystyried y prosesau ar gyfer eu cynlluniau dargyfeirio nhw ac i rannu gwybodaeth am brosesau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 7. Sylwadau clo ac unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Medi. Diolchodd Llywodraeth Cymru i aelodau'r grŵp am eu hamser ac am rannu eu harbenigedd.